**Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

31 Ionawr 2018

Annwyl Gadeirydd

**Cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 15 Ionawr 2018**

Rwy'n ysgrifennu atoch gan ymateb i e-bost Clerc y Pwyllgor, dyddiedig 16 Ionawr, ar ôl i fi ddod i gyfarfod y Pwyllgor am y tro cyntaf, gyda Tracey Burke, y diwrnod blaenorol.

Roeddwn yn croesawu'r cyfle i gynnal trafodaeth gychwynnol â'r Pwyllgor ac rwy'n falch bod aelodau yn meddwl bod y sesiwn yn ddefnyddiol.

Fi oedd yn gyfrifol am nifer o gamau gweithredu a nodwyd yn y cyfarfod.

- Llunio nodyn byr am y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Digidol Llywodraeth y DU
- Llunio nodyn dilynol am y tablau yng nghyd-destun modelu'r economi fel rhan o'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi
- Anfon nodyn am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran y cynnig i roi mwy o ymreolaeth i Drafnidiaeth Cymru
- Asesu sut y bydd diddymu Carillion, a gyhoeddwyd heddiw, yn effeithio ar Gymru

Mae fy ymatebion i'r pwyntiau hyn wedi'u hatodi.

Yn gywir

Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

**Gwrandawiad Cychwynnol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 15 Ionawr 2018 - Camau gweithredu**

**<u>Perthynas Llywodraeth Cymru â Gwasanaeth Digidol Llywodraeth y DU</u>**

Sefydlwyd Gwasanaeth Digidol Llywodraeth y DU (GDS) yn 2012 i arwain y broses o drawsnewid gwasanaethau llywodraeth ganolog y DU. Mae prif ffocws y GDS wedi bod ar wasanaethau Llywodraeth y DU ac mae wedi darparu cyngor/cyfarwyddyd i weinyddiaethau datganoledig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r GDS ar strategaeth a chydgysylltu. Fe wnaethom gyfrannu at Strategaeth Trawsnewid Digidol Llywodraeth y DU a oedd yn cyfeirio at waith sydd eisoes yn digwydd ar drawsnewid gwasanaethau digidol yn Llywodraeth Cymru. Bu swyddogion yn aelodau gweithgar o grwpiau arweinyddiaeth y GDS - Arweinwyr Digidol, Technoleg a Data - ers eu sefydlu. Yn dilyn uno'r grwpiau yn Arweinwyr Digidol a Thechnoleg, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi parhau i gymryd rhan a byddant yn bresennol yn y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth.

Rydym wedi mynychu a chyfrannu at ddigwyddiadau Trawsnewid Gyda'n Gilydd y GDS ac wedi defnyddio'r hyn a ddysgwyd o fewn Llywodraeth Cymru. Y mis hwn, mae gweithdy'r GDS/y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn cael ei gynnal a bydd swyddogion yn ei fynychu i drafod sut y gall y GDS gefnogi trawsnewid digidol mewn llywodraeth leol.

O ran cefnogi'r trawsnewidiad, mae Llywodraeth Cymru wedi dysgu gwersi o'r prosiectau trawsnewid enghreifftiol y bu'r GDS yn gweithio arnynt gydag Adrannau'r DU o 2012-2015. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu strategaeth Cloud First y GDS ac eisoes wedi trosglwyddodd nifer o'n rhaglenni busnes allweddol yn llwyddiannus.

Rydym wedi datblygu Strategaeth Data Agored ar gyfer Llywodraeth Cymru ac ar wyddor data rydym wedi gweithio gyda'r GDS a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i hyrwyddo'r rhaglen sbarduno gwyddor data.

O ran sgiliau a gweithlu, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos ochr yn ochr â'r GDS ar ei fframwaith proffesiynau Digidol, Data a Thechnoleg (DDaT). Rydym yn rhoi tacsonomeg y DDaT y GDS ar waith mewn rolau perthnasol o fewn Llywodraeth Cymru ac rydym yn defnyddio'r tacsonomeg ar gyfer ein gwaith recriwtio digidol a thechnoleg allanol. Mae staff Llywodraeth Cymru wedi mynychu hyfforddiant yn Academi Ddigidol y GDS. Ar lefel weithredol, rydym yn cydweithio'n rheolaidd â'r GDS ar ystod o faterion yn ymwneud â galluogrwydd.

O ran safonau a chydymffurfiaeth, rhoddwyd fersiwn wedi'i haddasu o safon gwasanaeth digidol y GDS ar waith yn 2014 er mwyn datblygu ein gwasanaethau digidol ein hunain. Rydym yn defnyddio methodolegau hyblyg wrth drawsnewid ein gwasanaethau. Mae gennym ystod o drefniadau llywodraethu i reoli gwariant a dewisiadau o ran technoleg.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio contractau a roddwyd ar waith gan y GDS/Swyddfa'r Cabinet megis G Cloud a'r fframweithiau Canlyniadau ac Arbenigwyr Digidol.

O ran gwefannau, rydym wedi defnyddio canllawiau brandio ac arddull GOV.UK i gefnogi'r broses o foderneiddio ein gwefan ein hunain yn Llywodraeth Cymru. Rydym wrthi'n trafod gyda'r GDS ynghylch defnyddio ei blatfformau gwasanaethau cyffredin.

I grynhoi, mae gan Lywodraeth Cymru berthynas strategol a gweithredol â'r GDS sydd wedi bodoli ers blynyddoedd lawer. Mae hyn yn fuddiol i'r ddwy ochr ac mae'n helpu i drawsnewid gwasanaethau digidol Llywodraeth Cymru yn effeithiol.

**Tablau yng Nghyd-destun Modelu'r Economi fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Economaidd**

Mae tablau Mewnbwn-Allbwn yn darparu fframwaith ar gyfer dangos llif nwyddau a gwasanaethau mewn economi. Mae'r tablau Mewnbwn-Allbwn ar gyfer Cymru wedi'u cynhyrchu gan Brifysgol Caerdydd, ar sail arolwg preifat bach o fusnesau yng Nghymru. Mae'r data diweddaraf yn deillio o 2007 ac fe'u cyhoeddwyd yn 2010. Fe'u defnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â gwybodaeth arall, i ddarparu amcangyfrifon o effeithiau byrdymor (gwirioneddol a phosibl) digwyddiadau economaidd e.e. yn sgil agor neu gau gwaith mawr.

O'u defnyddio'n briodol, gall tablau Mewnbwn-Allbwn cadarn hefyd gael eu defnyddio i ddadansoddi strwythur diwydiannol economi a gwella cydlyniant a dibynadwyedd ystadegau economaidd megis cynnyrch domestig gros a gwerth ychwanegol gros.

Mae gan dablau Mewnbwn-Allbwn nifer o gyfyngiadau damcaniaethol ac ymarferol sy'n golygu eu bod yn briodol i'w defnyddio mewn amgylchiadau penodol yn unig a, lle maen nhw'n cael eu defnyddio, dylid dehongli'r canlyniadau gyda gofal. Yn benodol, ni ddylid defnyddio tablau mewnbwn-allbwn ar eu pen eu hunain i asesu effaith hirdymor polisïau economaidd, ond gallant ddarparu gwybodaeth a all gyfrannu at asesiad o'r fath.

Mae data cadarn ar lif masnach rhwng Cymru a gweddill y DU yn gonglfaen hanfodol yn y tablau Mewnbwn-Allbwn. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddata swyddogol ar y llifau hyn ac nid yw'n hawdd cael gafael ar y data hyn oherwydd bod economi Cymru wedi'i integreiddio'n glos ag economi gweddill y DU.

Bydd swyddogion yn edrych ar gostau a manteision cynhyrchu tablau Mewnbwn-Allbwn cadarn ar gyfer Cymru yn ogystal â deall ffynonellau ac ansawdd y data y gellid eu defnyddio. Byddwn yn rhannu canlyniadau'r gwaith hwn gyda'r pwyllgor.

**Diweddariad ar Sut mae'r Pwerau Arfaethedig i Roi Mwy o Ymreolaeth i Trafnidiaeth Cymru yn Mynd Rhagddynt**

Sefydlwyd Trafnidiaeth Cymru o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 ac mae'n gwbl atebol i Weinidogion Cymru fel is-gwmni cyfyngedig drwy warant sydd ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru.

Mae cwmpas gweithrediad Trafnidiaeth Cymru wedi'i gyfyngu i'r gweithgareddau y gall Gweinidogion Cymru eu cyflawni'n gyfreithlon. Nid yw'n bosibl felly i Trafnidiaeth Cymru gyflawni swyddogaethau sydd y tu allan i bwerau Gweinidogion Cymru ac ni all Gweinidogion Cymru ddirprwyo eu swyddogaethau i Trafnidiaeth Cymru - oni bai bod Trafnidiaeth Cymru yn cael ei greu mewn statud a bod y pwerau yn cael eu trosglwyddo drwy ddeddfwriaeth. Felly mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r cyfrifoldeb pennaf am faterion trafnidiaeth ond mae'n gallu gofyn i Trafnidiaeth Cymru gynnal gwasanaethau ar ei ran.

Sefydlwyd Trafnidiaeth Cymru i gyflawni rhai swyddogaethau trafnidiaeth ar ran Gweinidogion Cymru a'i gylch gwaith, yn y lle cyntaf, oedd dylunio a chynnal y broses gaffael ar gyfer y gwasanaeth rheilffordd nesaf ar gyfer Cymru a'r Gororau a Metro De Cymru, a datblygu opsiynau ar gyfer Metro Gogledd-ddwyrain Cymru.

Mae trafodaethau cadarnhaol yn cael eu cynnal gyda Llywodraeth y DU ynghylch trosglwyddo pwerau sy'n ymwneud â masnachfreinio'r rheilffyrdd ac ased rheilffyrdd Cledrau'r Cymoedd.

Dyhead Gweinidogion Cymru ar gyfer Trafnidiaeth Cymru yw galluogi'r Cwmni i ymgymryd ag ystod ehangach o swyddogaethau trafnidiaeth. I'r perwyl hwn, erbyn diwedd mis Mawrth 2018, bydd cylch gorchwyl Trafnidiaeth Cymru yn cael ei ymestyn i gynnwys gwaith monitro a rheoli o ddydd i ddydd gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a dirwyn y fasnachfraint bresennol i ben, a rhoi trefn reoli barhaus ar waith ar gyfer masnachfraint newydd gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Bydd y Cwmni hefyd yn gyfrifol am reoli'r gwaith o gyflawni Metro De Cymru a Metro Gogledd-ddwyrain Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried manteision trawsnewid Trafnidiaeth Cymru yn asiant cyflawni sy'n gweithredu'n annibynnol a pha weithgareddau, prosiectau a gwasanaethau y gallai ofyn i Trafnidiaeth Cymru eu cyflawni ar ei rhan. Gallai hyn gynnwys gwelliannau cyfalaf i drafnidiaeth ar gyfer cerdded a beicio, ffyrdd neu reilffyrdd, a rheoli cymorth ariannol ar gyfer cludiant i deithwyr. Gallai hefyd gynnwys brandio a marchnata gwasanaethau. Efallai y bydd gan y Cwmni rôl hefyd o ran prynu tir a datblygu tir i gefnogi ffrwd incwm. Bydd annibyniaeth weithredol yn golygu y byddai cwestiynau a materion bob dydd yn cael eu penderfynu gan Trafnidiaeth Cymru, fel y gallai'r Cwmni ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i sefyllfaoedd newydd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried a allai fod manteision pellach drwy greu corff annibynnol drwy statud, dros y tymor hwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gwneud penderfyniad ar y camau nesaf erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon er mwyn gallu cynnwys y cyfrifoldebau ychwanegol y cytunwyd arnynt yn llythyr cylch gwaith 2018/19 Trafnidiaeth Cymru.

## Y Goblygiadau i Gymru yn sgil y Cyhoeddiad am Ddiddymiad Carillion

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn monitro'r sefyllfa gyda Carillion yn fanwl ers i'r rhybudd cyntaf ynghylch elw gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni proses diwydrwydd dyladwy fel rhan safonol o'r holl ymarferion tendro ac yn monitro sefyllfa ariannol pob cyflenwr ar ôl i gontract gael ei ddyfarnu.

Mae Carillion yn darparu gwasanaethau sylweddol ar gontract allanol a gwaith adeiladu i Lywodraeth y DU. Nid ydynt yn darparu gwasanaethau sylweddol i Lywodraeth Cymru.

Lle mae contractau gyda Carillion yn bodoli, byddwn yn gweithio gyda'n hymgynghorwyr a'r Derbynnydd Swyddogol i gytuno ar y ffordd orau ymlaen er mwyn lleihau effaith y sefyllfa hon. Bydd yr holl opsiynau i leihau unrhyw oedi posibl i gyflawni gwaith yn cael eu harchwilio.

Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi gweithwyr a chadwyni cyflenwi Carillion yng Nghymru, gan gynnwys cynorthwyo gweithwyr i ddod o hyd i waith a hyfforddiant arall lle bo angen drwy raglenni cymorth Llywodraeth Cymru megis REACT, prosiect a ariennir yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru ac sy'n cael ei ddarparu mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Carillion yn rhan o un o'r cynigion i redeg y gwasanaethau rheilffordd yng Nghymru a'r Gororau o fis Hydref 2018 ymlaen, ac i ddatblygu agweddau allweddol ar gam nesaf y Metro. Mae'r sefydliad sy'n cyflwyno'r cynnig wrthi'n ymchwilio i ffyrdd o barhau i fod yn rhan gyfreithlon o'r broses.

Mae Network Rail wedi cadarnhau nad yw'r gwaith a wneir iddynt gan Carillion yn ymwneud â rhedeg y rheilffordd o ddydd i ddydd. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r cwmni mewn perthynas ag unrhyw gysylltiad sydd gan Carillion a'i gadwyn gyflenwi.

Ar hyn o bryd mae Carillion yn gontractwr penodedig Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r gwaith dylunio ar gyfer cynllun ffordd yr A40 o Landdewi Felffre i Benblewin. Felly, rydym yn ymchwilio i bob opsiwn ynghylch y ffordd orau o symud ymlaen i gamau nesaf y prosiect, er mwyn lleihau unrhyw oedi.

Carillion hefyd yw contractwr penodedig Llywodraeth Cymru ar gyfer dylunio gwelliannau i gyffyrdd 15 ac 16 yr A55. Rhyddhawyd y rhybudd ynghylch elw Carillion ym mis Gorffennaf 2017 ar ôl i'w gais am y prosiect gael ei asesu a'i dderbyn, ond cyn dyfarnu'r contract yn ffurfiol i Carillion. Penderfynodd Llywodraeth Cymru ohirio'r broses gaffael er mwyn caniatáu i ymchwiliadau gael eu cynnal i sefydlogrwydd ariannol Carillion.

Rhoddodd Carillion sicrwydd ynglŷn ei sefydlogrwydd, ac roedd hyn, ynghyd â'r ffaith mai dim ond contract ar gyfer dylunio a oedd yn cael ei ddyfarnu iddo ar y cam hwn, yn golygu na allai Llywodraeth Cymru wrthod yn gyfreithlon dyfarnu'r contract i Carillion heb y posibilrwydd o wynebu her o dan gyfraith caffael.

Fel gyda'r A40, byddwn yn ymchwilio i bob opsiwn ynghylch y ffordd orau o symud ymlaen i gamau nesaf y prosiect, er mwyn lleihau unrhyw oedi. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r posibilrwydd o gontractio yn uniongyrchol â chadwyn gyflenwi Carillion.

O ran y contract Band Eang Cyflym iawn gydag Openreach, cadarnhawyd nad yw'r is-gontractwr, Carillion telent, wedi'i effeithio gan y problemau sy'n wynebu Carillion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â holl gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru i benderfynu ar lefel y risg/goblygiadau ac ni nodwyd unrhyw gontractau na chontractau arfaethedig hyd yma.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn un anfoneb hyd yma ers yr hysbysiad diddymu ac wedi gofyn am gyngor gan y Derbynnydd Swyddogol ar sut i ymdrin â hyn. Disgwylir nifer fach o anfonebau eraill.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymwybodol bod Carillion yn gontractwr penodedig ar gyfer Tŵr Meridien yn Abertawe, gan ddarparu'r gwaith adfer i wneud yr adeilad yn ddiogel rhag tân yn dilyn y tân yn nhŵr Grenfell.

Contract masnachol yw hwn gan mai eiddo preifat yw'r adeilad.  Mae swyddogion polisi tai Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod gyda Chyngor Abertawe a Carillion i sicrhau na fydd y gwaith yn cael ei oedi.

Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
31 January 2018